

HUW RICHARDS



Enw: Huw Richards

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu? Caerdydd

Ble aethoch chi i'r ysgol? Caerdydd/Pontypridd/Abergwaun

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol? Roeddwn i wrth fy modd gyda phob dim heblaw Mathemateg – er i mi lwyddo'n olew doeddwn i ddim yn fathemategydd naturiol. Celf a ieithoedd oedd fy hoff bethau ond i mi roedd ysgol yn lle braf.

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny? Bob math o bethau – actor, pensaer, cyfreithiwr ond athro oeddwn i am ran fwyaf o fy ngyrfa.

Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn? Yn ifanc iawn dw i'n cofio llyfryn o'r enw "Stori Mops". Ci bach drygionus oedd Mops ac mi oeddwn i wrth fy modd yn darllen am ei helyntion doniol

Beth yw eich diddordebau? Darlunio, paentio a dw i wrth fy modd yn mynd am dro ac hefyd reidio fy meic. Gwyllo ffilmiau a darllen ambell i gomic.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus? Bod gyda fy nheulu o gwmpas y bwrdd bwyd – dw i'n dipyn o folgi!

Beth sy'n eich gwylltio chi? Unrhywfath o anhegwch.

Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu? Pan oeddwn i yn fy ugeiniau dechreuais sgwennu ychydig o sgriptiau ar gyfer llyfrau comic Cymraeg ac yna'u darlunio. Ers hynny daeth darlunio'n fwy o beth i mi.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau? O bethau dw i'n eu darllen; ffilmiau ac oherwydd mod i wedi bod yn athro am rhan fwyaf fy ngyrfa o'r pethau y bydda i'n eu darllen gyda fy nisgyblion dros y blynyddoedd.

Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch? Ar ôl gweithio gyda phobl ifanc gydol fy ngyrfa mae'r themau sydd yn codi o flynyddoedd cynnar bywyd yn apelio. Cyfnod o newidiadau a gweld byd mewn ffordd wahanol yw'r blynyddoedd cynnar sydd yn hefyd yn llawn hiwmor.

Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu? Fel rhywun sydd wedi ysgrifennu a darlunio – y cyngor gorau ges i oedd sgwennwch a darluniwch mor aml a phosib. Gwnewch amser er mwyn ymarfer eich sgiliau dim ots pu'n a fydd rhywun yn gweld y gwaith heblaw chi, neu ddim.

Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur? Mynd â'r dychymyg am dro yw'r peth gorau – y gwaethaf yw pan fydd darluniad ddim yn dod yn hawdd.

Cwestiynau Cyflym

Hoff lyfr o'ch plentyndod? *Stori Mops* – hen lyfr o'r 1960'au pan oeddwn i'n ifanc.

Hoff gymeriad o lyfr? Merdydd Parri o *Ac yna Clywodd Swn y Môr* gan Alun Jones

Hoff le? Rhywle yn ymyl y môr neu ar y Wenallt sef bryn yng ngogledd Caerdydd

Hoff fwyd? Sosej Bîns a Chips.

Hoff ffilm/rhaglen deledu? Dw i'n hoffi ffilmiau wyddonias fy hoff un ar y foment yw *Dune* ond o ran ffilmiau Cymraeg mae *Patagonia* ac *Un Noson Ola Leuad* yn sefyll allan

Hoff air? Paned? (rhaid cael y gofynnod!)

Superpower o ddewis? Bod yn anweledig.

Hoff rhwydwaith cyfryngau cymdeithasol? Instagram – mae llawer o artistiaid a ffotograffwyr yn dangos eu gwaith yno – diddorol.

Beth sy'n gwneud i chi wenu? Cymru'n ennill gyda'r rygbi neu'r bêl droed.

Swydd tase chi dim yn awdur? Swydd ddelfrydol? Cyfarwyddwr ffilm.

Top tip i ddarpar awduron: Fel darlunydd – cofiwch does ddim ffasiwn beth â darluniad gwael.